# ATODIAD 7

## Cyngor Cymuned Bryncrug
## HYSBYSIAD PENNU DYDDIAD AR GYFER YMARFER HAWLIAU ETHOLWYR
## CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

**Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**
**Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (SI 2014/337)**

Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei ddangos rhwng **21/05/2018** a **03/06/2018**

Bob blwyddyn caiff ffurflen flynyddol y corff ei harchwilio gan archwilydd ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb y cyfle i edrych arni, a gwneud copïau, yn ogystal â gweld pob llyfr, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau cysylltiedig.

Mae'r dogfennau hyn ar gyfer **Cyngor Cymuned Bryncrug** i fod ar gael dim ond cael rhybudd rhesymol drwy gais rhwng 12:00 a 17:00 o'r gloch o ~~ddydd Llun~~ i ~~ddydd Gwener~~ ar Ddydd Mercher (ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

| | |
|---|---|
| Yn cychwyn ar | **04/06/2018** |
| Ac | |
| Yn gorffen ar | **29/06/2018** |

Os ydych am eu gweld yna cysylltwch â chynrychiolydd y corff:

| | |
|---|---|
| Enw | BEDWYR GWILYM |
| Swydd o fewn y Corff | CLERC |
| Cyfeiriad | CYNGOR CYMUNED BRYNCRUG |
| | 4 CAE FFYNNON |
| | BLAENAU FFESTINIOG |
| | LL41 3EE |
| Rhif ffôn | 07840 956 056 |

Mae gan etholwyr lleol a'u cynrychiolwyr hefyd y cyfle i holi'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon a'r hawl i fynychu o flaen yr Archwilydd Cyffredinol a chynnig gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu i unrhyw eitem ynddynt. Ond gyntaf rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol drwy gyfrwng yr archwilydd a rhaid anfon copi at y corff. Mae'r archwilydd ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar gael yn y cyfeiriad isod am y pwrpas hwn o'r **02/07/2018** nes i'r archwiliad ddod i ben.

Mae archwiliad y corff yn cael ei gynnal dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymddygiad Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae archwiliad **Cyngor Cymuned Bryncrug** yn cael ei gynnal gan:

BDO LLP
Arcadia House
Maritime Walk
Ocean Village
Southampton
SO14 3TL
029 2034 2777

# ATODIAD 8

**Cyfrifon y Cyngor: Crynodeb o'ch hawliau**

***Y sefyllfa sylfaenol***
Yn ôl y gyfraith mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb yr hawl i edrych ar gyfrifon y corff. Os oes gennych hawl a'ch bod wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyngor lleol yna mae gennych chi (neu'ch cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am gyfrifon y corff neu i herio eitem gyfrifo sydd ynddynt.

***Yr hawl i edrych ar y cyfrifon***
Pan fydd eich corff wedi cwblhau eu cyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Wedi i chi roi rhybudd rhesymol o'ch bwriadau, mae gennych 20 diwrnod gwaith i edrych drwy'r cyfrifon a'r dogfennau cefnogi. Byddwch yn gallu gwneud copïau o'r cyfrifon a'r dogfennau perthnasol er efallai y bydd rhaid i chi dalu tâl am gopïo.

***Yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon***
Dim ond am y cyfrifon y cewch chi ofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau am bolisïau, arian, na gweithdrefnau'r corff nac am unrhyw beth arall nad yw'n ymwneud â'r cyfrifon. Rhaid i'ch cwestiwn chi fod yn un am y cyfrifon y maen nhw'n eu harchwilio. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddweud a yw'n meddwl bod rhywbeth y mae'r corff wedi'i wneud, neu eitem yn ei gyfrifon, yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

***Yr hawl i wrthwynebu i'r cyfrifon***
Os ydych chi'n meddwl bod y corff wedi gwario arian na ddylai fod wedi'i wneud, neu fod rhywun wedi achosi colled i'r corff yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, gallwch wrthwynebu i'r Archwilydd Cyffredinol drwy anfon 'hysbysiad o wrthwynebiad' ffurfiol, **sy'n gorfod bod yn ysgrifenedig,** i'r cyfeiriad isod. Rhaid i chi ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol pam eich bod yn gwrthwynebu. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i benderfyniad ar eich gwrthwynebiad. Os nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad, gallwch apelio i'r llysoedd.

Gallwch hefyd wrthwynebu os ydych chi'n meddwl fod yna rywbeth yn y cyfrifon y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ei drafod gyda'r corff neu roi gwybod i'r cyhoedd amdano mewn 'adroddiad budd y cyhoedd'. Unwaith eto, **rhaid i chi roi eich rhesymau yn ysgrifenedig** i'r Archwilydd Cyffredinol at y cyfeiriad isod a rhaid i chi anfon copi at y corff. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu a ddylid gweithredu ar hyn. Fel arfer bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad, ond nid oes raid iddo wneud hynny, ac nid oes modd i chi apelio i'r llysoedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Chewch chi ddim defnyddio eich 'hawl i wrthwynebu' i wneud cwyn bersonol neu i hawlio yn erbyn eich corff. Dylech fynd â'r cwynion hyn at eich swyddfa Cyngor ar Bopeth lleol, at eich Canolfan y Gyfraith leol neu at eich cyfreithiwr. Gallwch hefyd gwynio wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os ydych chi'n credu fod Aelod o'r corff wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn: 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5LJ, rhif ffôn 0300 790 0203.

***Beth arall allwch chi ei wneud?***
Yn hytrach na gwrthwynebu, gallwch roi gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau. Er enghraifft, gallwch yn syml ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol os ydych chi'n credu bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu os ydych chi'n gweld gwastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r corff yn rhedeg ei wasanaethau. Does dim rhaid i chi ddilyn unrhyw gyfyngiadau amser na gweithdrefnau penodol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi adroddiad manwl i chi o'i ymchwiliad i'r materion rydych wedi'u codi, ond bydd fel arfer yn dweud wrthych beth yw'r canlyniad cyffredinol.

***Gair olaf***
Rhaid i Gyrff Llywodraeth Leol, ac felly trethdalwyr lleol, gwrdd â chostau delio gyda chwestiynau a gwrthwynebiadau. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu ynghylch mynd â'ch gwrthwynebiad ymhellach, un o'r nifer o ffactorau y mae'n rhaid iddo eu cymryd i ystyriaeth yw'r costau fydd ynghlwm wrth hynny. Bydd yn parhau i ymchwilio i'r gwrthwynebiad dim ond os yw hynny er budd y cyhoedd. Os byddwch yn apelio i'r llysoedd, efallai y bydd rhaid i chi dalu am yr achos eich hun.

Mae gwybodaeth fanylach ar eich hawliau ar gael yn nogfen Swyddfa Archwilio Cymru, **Cyfrifon Cynghorau yng Nghymru - Eich hawliau,** sydd ar gael **YN RHAD AC AM DDIM.** Mae ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar https://www.wao.gov.uk/access-councils-accounts Mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os hoffech gysylltu ag archwilydd allanol penodedig eich corff ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ysgrifennwch at: BDO LLP, Arcadia House, Maritime Walk, Ocean Village, Southampton, Hampshire SO14 3TL.